carersUK

taflen ffeithiau

# Lwfans Byw i'r Anabl

Os ydych yn gofalu am blentyn o dan 16 oed sydd â chyflwr iechyd neu anabledd, yna efallai y byddant yn gymwys i dderbyn Lwfans Byw i'r Anabl.

Mae'r wybodaeth hon yn berthnasol i Gymru, Lloegr, a Gogledd Iwerddon.

## Cynnwys


| | |
|---|---|
| Beth yw Lwfans Byw i'r Anabl (LBA)? | 3 |
| Pwy sy'n gallu hawlio LBA? | 4 |
| Faint o LBA y byddwch yn ei dderbyn? | 4 |
| Yr elfen ofal | 5 |
| Yr elfen symudedd | 6 |
| Sut i hawlio LBA | 8 |
| Os oes gan eich plentyn salwch angheuol | 10 |
| Y penderfyniad | 11 |
| Herio'r penderfyniad | 11 |
| Beth i'w wneud os yw eich amgylchiadau'n newid | 12 |
| Help arall y gallech fod yn gymwys ar ei gyfer | 13 |
| Beth sy'n digwydd pan fydd eich plentyn yn 16 oed? | 16 |
| Cymorth ychwanegol | 18 |

# Beth yw Lwfans Byw i'r Anabl (LBA)?

Os ydych yn gofalu am blentyn o dan 16 oed sydd â chyflwr iechyd neu anabledd,efallai y byddant yn gymwys i dderbyn LBA. Gall hyn helpu tuag at y costau ychwanegol o fagu plentyn anabl. Nid yw LBA yn seiliedig ar brawf modd, felly ni ystyrir eich amgylchiadau ariannol,ac mae'n fudd-dal di-dreth.

Nid yw LBA yn lleihau budd-daliadau eraill. Mewn gwirionedd, gall hyd yn oed gynyddu swm y budd-dal rydych yn ei dderbyn, neu eich helpu i fod yn gymwys ar gyfer budd-daliadau eraill (fel Lwfans Gofalwr) a/neu gredydau treth. Os yw eich plentyn yn 16 oed neu'n hŷn a dim yn derbyn LBA ar hyn o bryd, bydd yn rhaid iddynt hawlio Taliad Annibyniaeth Personol (TAP) yn ei le.

**Noder:** Yn yr Alban, mae Taliad Anabledd Plant (CDP) wedi disodli DLA ar gyfer plant. Mae ganddo feini prawf cymhwyso tebyg iawn a bydd yn cael ei dalu nes bydd eich plentyn yn cyrraedd 18 oed.

Os yw eich plentyn yn derbyn LBA ar gyfer plant ar hyn o bryd, bydd hyn yn parhau. Mae'r holl bobl ifanc sy'n derbyn LBA ar gyfer plant ar hyn o bryd yn cael eu trosglwyddo i'r budd-dal newydd. Byddwn yn cysylltu â chi pan fydd hyn yn digwydd ac ni fydd yn rhaid i chi wneud dim oni bai bod eich amgylchiadau'n newid. Os ydynt yn newid o'r blaen, bydd angen i chi gysylltu â'r Adran Gwaith a Phensiynau.

Bydd Nawdd Cymdeithasol yr Alban yn defnyddio gwybodaeth o'ch DLA ar gyfer dyfarniad plant i dalu'r un gyfradd i chi: mygov.scot/disability-living-allowance-for-children-is-moving

# Pwy sy'n gallu hawlio LBA?

I blentyn o dan 16 oed fod yn gymwys i dderbyn LBA, mae'n rhaid iddynt gwrdd â'r holl feini prawf canlynol:

- Mae'n rhaid bod angen llawer mwy o ofal, sylw neu oruchwyliaeth arnynt.
  oherwydd anabledd corfforol neu feddyliol neu gyflwr iechyd (ac nid oes rhaid iddynt gael diagnosis pendant).

- Mae'n rhaid eu bod wedi bod angen y gofal, sylw neu oruchwyliaeth hwn am dri mis o leiaf, ac yn debygol o fod angen hyn am chwe mis pellach (gallwch wneud y cais cyn bod y tri mis wedi dod i ben, ond ni fyddwch yn derbyn unrhyw daliad cyn hynny).
- Mae'n rhaid nad oes ganddynt unrhyw amodau mewnfudo'n gysylltiedig â'u cyfnod yn y DU, yn amodol ar rai eithriadau (os oes ganddynt gyfyngiadau mewnfudo ar eu cyfnod yn y DU, gall hawlio budd-daliadau effeithio ar eu hawl yn y dyfodol i aros yn y DU). Gofynnwch am gyngor mewnfudo arbenigol cyn gwneud cais - gallwch chwilio am arbenigwyr mewnfudo ar find-legal-advice.justice.gov.uk neu lawsoc-ni.org/solicitors (yng Ngogledd Iwerddon).
- Mae'n rhaid eu bod yn cwrdd â'r amodau preswyliaeth a phresenoldeb.

**Noder:** Os oes gan eich plentyn salwch angheuol, ceir rheolau symlachsy'n gwneud y broses o wneud cais yn haws ewch i dudalen 8 i gael manylion.

## Faint o LBA y byddwch yn ei dderbyn?

Ceir dwy elfen o LBA:

| | Is | Canolig | Uwch |
|---|---|---|---|
| Elfen ofal | £26.90 | £68.10 | £101.75 |
| Elfen symudedd | £26.90 | | £71.00 |

## Yr elfen ofal

Gellir talu'r elfen ofal LBA i blentyn y mae angen llawer o help ychwanegol arnynt gyda gofal personol, goruchwyliaeth neu gadw llygad barcud arnynt.Mae'n rhaid i'r help sydd ei angen arnynt fod yn sylweddol fwy na'r help y maeplentyn o'r un oedran heb anabledd neu gyflwr iechyd ei angen.

| | |
|---|---|
| **Cyfradd is yr elfen ofal** | I blant sydd angen help mewn cysylltiad â'u gofal personol am ran sylweddol o'r dydd (sydd fel arfer yn golygu o leiaf awr y dydd - er nad oes rhaid i hyn o reidrwydd fod i gyd ar yr un adeg). |
| **Cyfradd ganolig yrelfen ofal** | I blant sydd naill ai ag anghenion yn ystod y dydd neu'r nos (gweler isod). Mae rheolau arbennig yn gymwys i rai plant sy'n derbyn dialysis arennol o leiaf ddwywaith yr wythnos. |
| **Cyfradd uwch yr elfen ofal** | I blant sydd ag anghenion yn ystod y dydd yn ogystal â'r nos (gweler isod). Bydd eich plentyn yn derbyn y gyfradd uwch yn awtomatig os ydynt yn angheuol sâl. |

## Prawf yn ystod y dydd

I fodloni'r prawf yn ystod y dydd, mae'n rhaid bod angen un o'r canlynol ar eich plentyn:

- help cyson (hy tua thair gwaith neu fwy) gyda gofal personol trwy gydol y dydd
- rhywun i sicrhau eu bod yn iawn yn rheolaidd (hy yn aml neu'n gyson) trwy gydol y dydd i sicrhau eu bod yn ddiogel.

## Prawf yn ystod y nos

I fodloni'r prawf yn ystod y nos, mae'n rhaid bod angen un o'r canlynol ar eichplentyn:

- help gyda gofal personol o leiaf ddwywaith y nos, neu unwaith y nos am o leiaf 20 munud
- rhywun i sicrhau eu bod yn iawn o leiaf ddwywaith y nos, neu unwaith y nos am o leiaf 20 munud i sicrhau eu bod yn ddiogel.

## Esboniad

**Mae help gyda gofal personol** yn cynnwys gweithgareddau fel:

- gwisgo a dadwisgo
- ymdrochi ac ymolchi
- defnyddio'r tŷ bach
- eistedd ar gadair a chodi oddi arni
- mynd i mewn i a chodi o'rgwely a chysgu
- cerdded
- cyfathrebu
- help gyda meddyginiaeth a thriniaeth
- bwyta ac yfed
- gweld (hy os oes angen rhywun i weld drostynt)
- anadlu

Ystyrir bod ar blentyn angen **rhywun i sicrhau eu bod yn iawn** os oes angen sicrhau'n rheolaidd eu bod yn iawn yn ystod y dydd i osgoi 'perygl sylweddol' i'w hunain neu eraill.

# Yr elfen symudedd

Os oes angen help ar eich plentyn i symud o gwmpas, efallai y byddant yn gymwys i dderbyn yr elfen symudedd. Mae'n rhaid i chi ddangos nad yw eich plentyn yn gallu, neu i bob pwrpas, yn methu cerdded ac/neu fod angen cyfarwyddyd a goruchwyliaeth sylweddol fwy arnynt na phlentyn o'r un oedran heb anabledd neu gyflwr iechyd.

| | |
|---|---|
| **Cyfradd is yr elfen symudedd** | Gellir ei thalu i blentyn o bum mlwydd oed. Mae ar gyfer plant sy'n gallu cerdded ond y mae angen cyfarwyddyd neu oruchwyliaeth ychwanegol arnynt ar lwybrau anghyfarwydd allan yn yr awyr agored. |
| **Cyfradd uwch yr elfen symudedd** | Gellir ei thalu i blentyn o dair blwydd oed. Mae ar gyfer plant nad ydynt yn gallu, neu i bob pwrpas yn methu cerdded, neu lle byddai'r ymdrech sydd ei angen i gerdded yn golygu perygl i'w bywyd neu a fyddai'n arwain at ddirywiad difrifol yn eu hiechyd. Gall plant fod yn gymwys hefyd os oes ganddynt nam gweledol difrifol, eu bod yn fyddar yn ogystal ag yn ddall,neu â nam meddyliol difrifol. |

**Crynodeb:** Mae'n rhaid i'ch plentyn fod o dan 16 oed. I fod yn gymwys ar gyfer cyfradd is yr elfen symudedd, mae'n rhaid iddynt fod dros bump oed ac i fod yn gymwys ar gyfer y gyfradd uwch, mae'n rhaid iddynt fod dros dair oed.

I fod yn gymwys ar gyfer cyfradd uwch yr elfen symudedd oherwydd **nam meddyliol difrifol**, mae'n rhaid i'r plentyn gwrdd â'r holl feini prawf canlynol:

- bod yn gymwys ar gyfer cyfradd uwch elfen ofal LBA
- dioddef o gyflwr datblygiad ataliedig neu ddatblygiad corfforol anghyflawn yr ymennydd sy'n golygu nam meddyliol difrifol o ran deallusrwydd neu allu cymdeithasol
- arddangos 'ymddygiad aflonyddgar' sy'n 'eithafol' a 'bod angen unigolyn arall yn rheolaidd i ymyrryd a'u dal yn ôl yn gorfforol i'w rhwystro rhag achosi anaf i'w hunain neu unigolyn arall, neu ddifrodi eiddo'
- nid oes modd rhagweld eu hymddygiad ac felly, mae angen unigolyn arall arnynt i'w goruchwylio pa bryd bynnag y maent yn effro.

## Sut i hawlio LBA

### Cymru, Lloegr a'r Alban

- Ffoniwch Llinell Gymorth Lwfans Byw i'r Anabl ar 0800 121 4600 (ffôn testun: 0800 121 4523)
- Ewch i gov.uk/disability-living-allowance-children i lawrlwytho ffurflen hawlio.

### Gogledd Iwerddon

- Ffoniwch Disability and Cares Service ar 0800 587 0912 (ffôn testun: 0800 012 1574).
- Ewch i nidirect.gov.uk/dla i lawrlwytho ffurflen hawlio.

Os gofynnwch am ffurflen hawlio dros y ffôn, dylai gael ei stampio gyda'r dyddiad cyhoeddi. Dyma'r dyddiad y bydd y budd-dal yn cael ei dalu os yw'r cais yn llwyddiannus, ar yr amod eich bod yn dychwelyd y ffurflen o fewn chwe wythnos. Os nad ydych yn gallu cwblhau'r ffurflen erbyn y dyddiad hwn, rhowch wybod iddynt a gofynnwch am gyngor.

Os ydych yn lawrlwytho'r ffurflen hawlio neu'n derbyn un gan asiantaeth cyngor leol, bydd y cais yn cychwyn o'r dyddiad y derbynnir y ffurflen wedi ei chwblhau. Darllenwch y ffurflen a'r nodiadau atodol cyn i chi ddechrau cwblhau'r ffurflen. Gallwch atodi tudalennau i'r ffurflen gais os ydych yn meddwl nad oes digon o le i esbonio'r help sydd ei angen ar eich plentyn. Cofiwch ychwanegu enw a dyddiad geni eich plentyn at y tudalennau ychwanegol.

## Cwblhau'r ffurflen hawlio

- Mae'r ffurflen yn un hir a chymhleth, felly cymerwch eich amser i gwblhau'r ffurflen hawlio, a chofiwch nad oes angen i chi ei chwblhau i gyd ar unwaith.
- Rhestrwch yr holl help sydd ei angen ar eich plentyn cyn cwblhau'r ffurflen hawlio.
- Os nad ydych yn siŵr ynghylch faint o help sydd ei angen ar eich plentyn,neu faint o amser y mae pethau'n cymryd, cadwch ddyddiadur am tua wythnos i roi syniad i chi.
- Dywedwch am faint o amser y mae angen help ar eich plentyn, yn hytrach na pha mor aml y maent yn cael help.
- Gall fod yn dasg anodd iawn, ond ceisiwch ganolbwyntio ar yr anawsterau sydd gan eich plentyn a'r gofal a'r cymorth ychwanegol sydd eu hangen arnynt o gymharu â phlant eraill o'r un oed.

- Ceisiwch ddefnyddio enghreifftiau i ddisgrifio anghenion eich plentyn lle bo'n bosibl - peidiwch â dibynnu ar y blychau tic yn unig.
- Cofiwch na fydd yr unigolyn sy'n edrych ar y ffurflen yn adnabod eich plentyn ac efallai na fyddant yn gwybod dim am eu cyflwr.
- Mae tudalen ar y ffurflen hawlio o'r enw 'Datganiad gan rywun sy'n adnabod y plentyn', ac os oes gweithiwr proffesiynol (hy athro ysgol,meddyg teulu, therapydd ayyb.) a allai rhoi gwybodaeth fanwl am eich plentyn, rhowch eu manylion ar y dudalen hon (os na, gallwch ei llenwi eich hun).
- Os byddwch yn rhoi manylion gweithiwr proffesiynol, sicrhewch fod yr unigolyn yn berthnasol. Er enghraifft os yw anghenion eich plentyn yn bennaf yn anghenion yn ystod y nos, nid oes llawer o bwynt gofyn i'r ysgol am fanylion eu cyflwr.
- Os byddwch yn rhoi manylion mwy nag un gweithiwr proffesiynol ar y ffurflen, nodwch yn glir pa un sy'n adnabod eich plentyn orau.
- Gall yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) neu'r Adran Cymunedau (Gogledd Iwerddon) ysgrifennu at un o'r gweithwyr proffesiynol rydych yn eu rhestru ar y ffurflen, felly gwnewch yn siŵr eich bod yn rhoi gwybod i'r gweithwyr proffesiynol eich bod yn rhoi eu manylion i lawr.
- Gallech ofyn am help i gwblhau'r ffurflen hawlio gan asiantaeth cyngor leol – ewch i'r adran 'Help ychwanegol'.

## Os oes gan eich plentyn salwch angheuol

Mae rheolau arbennig yn caniatáu i blant sy'n angheuol sâl gael help yn gyflym.Ystyrir plentyn fel bod yn angheuol sâl os oes salwch ganddynt sy'n gwaethygu ac sy'n debygol o gyfyngu eu disgwyliad oes i chwe mis neu lai. Mae'n amhosibl dweud yn union pa mor hir bydd rhywun yn byw, a bydd rhai plant sy'n derbyn LBA o dan y rheolau hyn yn byw yn llawer hirach na chwe mis.

O dan y rheolau arbennig hyn, nid oes rhaid i'ch plentyn fodloni'r cyfnod cymhwyso (hy eu bod wedi bod yn anabl neu wedi bod yn sâl am dri mis o leiaf ac yn debygol o fod yn anabl neu'n sâl am chwe mis arall). Hefyd, nid oes rhaid eu bod wedi bod yn bresennol ym Mhrydain Fawr am y 104 o wythnosau allan o'r 156 diwethaf cyn gwneud cais - mae angen iddynt fod yn bresennol ar adeg gwneud y cais yn unig.

Os ydych yn hawlio LBA ar gyfer plentyn o dan y rheolau hyn, dylai eu cais gynnwys ffurflen DS1500 sydd ar gael gan eich meddyg teulu neu feddyg ymgynghorol. Nid oes rhaid i chi gwblhau prif ran y ffurflen hawlio sy'n gofyn am anghenion gofal personol neu oruchwyliaeth eich plenty, gan y byddant yn gymwys yn awtomatig i dderbyn cyfradd uwch yr elfen ofal. Bydd rhaid i chi, fodd bynnag, gwblhau'r adrannau ynghylch unrhyw broblemau symudedd sydd gan eich plentyn iddynt dderbyn yr elfen symudedd.

## Y penderfyniad

Byddwch yn derbyn penderfyniad ysgrifenedig sy'n nodi pa gyfraddau LBA sydd wedi cael eu dyfarnu i'ch plentyn ac o ba ddyddiad.

Gellir dyfarnu LBA am gyfnod penodedig neu am gyfnod amhenodol. Os dyfarnir budd-dal i chi am gyfnod penodedig, bydd y penderfyniad yn nodi pan fydd y budd-dal yn dod i ben. Bydd ffurflen hawlio newydd yn cael ei hanfon atoch chi ymhell cyn bod cyfnod budd-dal eich plentyn yn dod i ben. I gael mwy o wybodaeth am yr hyn sy'n digwydd os yw eich plentyn yn 16 oed yn fuan, ewch i dudalen 14.

## Herio'r penderfyniad

Os gwrthodir cais LBA eich plentyn neu y dyfarnir cyfradd is na'r hyn roeddech yn ei ddisgwyl iddo, gallwch ofyn i'r Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) (Cymru, Lloegr a'r Alban) neu'r Adran Cymunedau (DfC) (Gogledd Iwerddon) ystyried y penderfyniad eto. Mae'n rhaid i chi wneud hyn cyn eich apêl. Gelwir hyn yn ailystyriaeth orfodol.

Os ydych yn dal i anghytuno unwaith iddynt wneud hyn, mae'n rhaid i chi gyflwyno apêl gyda'r Gwasanaeth Tribiwnlys (Cymru, Lloegr a'r Alban) neu'r Gwasanaeth Apeliadau (TAS) (Gogledd Iwerddon), ac atodi copi o'r hysbysiad ailystyriaeth orfodol gyda'r apêl.

Mae'n bwysig herio penderfyniad neu dderbyn cyngor cyn gynted â phosibl, oherwydd ceir cyfyngiadau amser sy'n gyffredinol yn golygu bod rhaid i chi weithredu o fewn un mis. Os nad ydych yn gweithredu o fewn y terfyn amser hwn, mae posibilrwydd y gellir herio'r penderfyniad o hyd. I gael mwy o wybodaeth ynghylch apelio am benderfyniad budd-dal, ewch i www.carersuk.org/appealsguide

## Beth i'w wneud os bydd eich amgylchiadau'n newid

Os yw eich plentyn yn barod yn derbyn LBA ond mae angen mwy o help arnynt nawr, gall fod yn bosibl i gael ei dyfarniad wedi ei gynyddu. Gallwch gysylltu â'r DWP (neu Disability and Carers Service yng Ngogledd Iwerddon) a gofyn iddynt ystyried dyfarniad eich plentyn eto.

Os ydych yn gofyn iddynt ystyried dyfarniad LBA eto, mae posibilrwydd bob amser y gallai'r dyfarniad gael ei leihau yn hytrach na'i gynyddu, felly mae bob amser yn syniad da cael help gan asiantaeth cyngor leol cyn i chi gysylltu â'r DWP (neu Disability and Carers Service yng Ngogledd Iwerddon).

Os yw eich plentyn yn 16 oed ac rydych yn gofyn am ystyried dyfarniad LBA eto, mae'n debygol y bydd yn cael ei drin fel cais newydd ar gyfer TAP – ewch i dudalen 14 i gael mwy o fanylion.

# Mynd i aros mewn ysbyty neu gartref gofal

Gall LBA gael ei effeithio wrth i'ch plentyn aros dros nos i ffwrdd o gartref. Ceir gwahanol reolau am hyn, yn dibynnu ar p'un a yw eich plentyn yn mynd i aros mewn ysbyty neu gartref gofal.

**Aros mewn ysbyty**

Os yw eich plentyn o dan 18 oed pan fyddant yn mynd i aros mewn ysbyty, gellir parhau i dalu eu LBA am y cyfnod cyfan maent yn aros yno.

**Aros mewn cartref gofal**

Os yw eich plentyn mewn cartref gofal (sydd fel arfer yn cynnwys ysgolion preswyl), yn gyffredinol, bydd taliad o'r elfen ofal yn dod i ben ar ôl 28 diwrnod. Fodd bynnag, gellir talu'r elfen ofal iddynt am unrhyw ddiwrnod y maent yn aros yn eich cartref, gan gynnwys y diwrnod maent yn gadael a'r diwrnod maent yn dychwelyd. Ni effeithir ar yr elfen symudedd gan gyfnodau mewn cartref gofal.

Mae'r rheolau'n wahanol os ariannir cyfnod eich plentyn mewn cartref gofal gan ofal iechyd parhaus y GIG, neu os ydych yn talu am y cartref gofal eich hun. Os yw'r sefyllfa hon yn berthnasol i'ch plentyn, gofynnwch am gyngor pellach – ewch i'r adran 'Help ychwanegol'.

Ychwanegir cyfnodau y mae eich plentyn mewn cartref gofal gyda bwlch o 28 diwrnod neu lai rhyngddynt at ei gilydd pan gyfrifir pryd y dylai eu LBA ddod i ben. Mae hyn yn cael ei adnabod fel y 'rheol cysylltu'.

# Help arall y gallech fod yn gymwys ar ei gyfer

## Budd-daliadau prawf modd a chredydau treth

Os dyfarnwyd LBA i'ch plentyn, mae bob amser yn syniad da gwirio a ydych yn gymwys i dderbyn cynnydd mewn unrhyw fudd-daliadau prawf modd, gredydau treth neu Gredyd Cymhwysol rydych eisoes yn eu derbyn, neu os ydych o bosibl yn gymwys i dderbyn unrhyw fudd-daliadau prawf modd neu gredydau treth nad ydych yn eu derbyn ar hyn o bryd.

Os ydych yn derbyn budd-daliadau prawf modd, gredydau treth neu Gredyd Cymhwysol yn barod, dylech roi gwybod i bob un o'r swyddfeydd sy'n eu talu i chi bod eich plentyn nawryn derbyn LBA. Sylwch – gallwch ddal i gael y symiau ychwanegol isod mewn Credydau Treth Plant a Chredyd Cynhwysol, hyd yn oed os nad yw eich plentyn wedi'i gynnwys yn eich hawliad oherwydd y 'terfyn dau blentyn'.

## LBA a Chredydau Treth Plant

Asesir Credyd Treth Plant yn fwy hael pan fydd plentyn yn derbyn LBA. Y rheswm am hyn yw y bydd teuluoedd yn gymwys i dderbyn elfen anabledd ychwanegol a fydd yn cynyddu'r swm o Gredydau Treth Plant a ddyfarnir iddynt. Os dyfarnir cyfradd uwch elfen ofal y LBA i'ch plentyn, bydd elfen anabledd difrifol yn cynyddu'r swm o Gredyd Treth Plant hyd yn oed yn fwy.

## LBA a Chymhorthdal Incwm

Os ydych yn dal i dderbyn swm ar gyfer eich plentyn yn eich dyfarniad Cymhorthdal Incwm, bydd dyfarniad eich plentyn o LBA yn golygu y byddwch yn gymwys i dderbyn premiwm plentyn anabl yn eich cyfrifiad Cymhorthdal Incwm.Os dyfarnir cyfradd uwch elfen ofal y LBA i'ch plentyn, bydd premiwm anabledd uwch yn cynyddu'r swm o Gymhorthdal Incwm hyd yn oed yn fwy.

### LBA a Chredyd Cynhwysol

Asesir Credyd Cynhwysol yn fwy hael pan fydd plentyn yn derbyn LBA. Y rheswm yw y bydd teuluoedd yn gymwys i dderbyn ychwanegiad plentyn anabl ychwanegol, a fydd yn cynyddu'r swm o Gredyd Cynhwysol a ddyfarnir iddynt.  Os dyfarnir cyfradd uwch elfen ofal y LBA i'ch plentyn, bydd ychwanegiad plentyn anabl uwch yn cynyddu'r swm hyd yn oed yn fwy.

### LBA a Budd-dal Tai

Os ydych yn derbyn Budd-dal Tai, yna efallai byddai derbyn LBA ar gyfer eich plentyn yn cynyddu'r swm o Fudd-dal Tai a ddyfarnir i chi (os na thelir eich rhent yn llawn yn barod gan Fudd-dal Tai).

### Grant Gofalwyr Ifanc (yr Alban yn unig)

Mae'r Grant Gofalwyr Ifanc yn daliad blynyddol o £326.65 i ofalwyr ifanc yn yr Alban. Er mwyn bod yn gymwys i allu cael Grant Gofalwyr Ifanc, mae'n rhaid i chi fod yn 16, yn 17 neu'n 18 oed. Mae'n rhaid eich bod chi wedi bod yn gofalu hefyd am un, dau neu dri o bobl am 16 awr yr wythnos ar gyfartaledd am o leiaf y tri mis diwethaf. Os ydych yn gofalu am fwy nag un person, gallwch gyfuno oriau'r bobl rydych yn gofalu amdanynt i 16 awr yr wythnos ar gyfartaledd. Gallwch ddysgu mwy yn: www.carersuk.org/scotland/help-and-advice/social-security/young-carers-grant

### Derbyn gwiriad budd-dal

Gallwch dderbyn gwybodaeth am ba fudd-daliadau y mae gennych hawl iddynt a faint y dylech ei dderbyn, drwy gael gwiriad budd-dal ar-lein (gweler y nodyn isod).

**Noder:** Gallwch gael gwiriad budd-daliadau ar-lein wedi'i bersonoli, er enghraifft yn: carersuk.org/benefits-calculator. Bydd yn cymryd tua 20 munud i'w gwblhau.

Nid yw'r offer ar-lein hyn yn addas i bawb. Mae rheolau arbennig ynberthnasol i rai grwpiau o bobl, er enghraifft myfyrwyr, pobl o dan 18oed, pobl mewn gofal preswyl parhaol, dinasyddion y DU sy'n byw dramor a phobl and ydynt yn ddinasyddion Prydeinig neu Wyddelig.

## Eithriad o'r cap ar fudd-dal

Os yw eich plentyn yn derbyn LBA, mae hynny'n golygu y cewch eich eithrio o'r cap ar fudd-dal.

## LBA a Lwfans Gofalwr

Os dyfarnir cyfradd ganolig neu uwch elfen ofal y LBA i'ch plentyn, efallai y gallwch hawlio Lwfans Gofalwr am ofalu amdanynt. I gael mwy o wybodaeth am Lwfans Gofalwr, ewch i www.carersuk.org/carersallowance i lawrlwytho ein taflen ffeithiau.

## Help gyda chostau trafnidiaeth

**Motability**

Os dyfarnir cyfradd uwch elfen symudedd y LBA i'ch plentyn, yna efallai y gallwch wneud cais ar gyfer y cynllun Motability. Drwy'r cynllun hwn, gallwch ddefnyddio elfen symudedd eich plentyn i brydlesu neu brynu car, cadair olwyn neu sgwter. Os nad ydych yn gallu gyrru a bod angen help arnoch i dalu am wersi neu help i gael blaendal am gar drwy'r cynllun, yna efallai y byddwch yn gymwys i dderbyn grant. I gael mwy o wybodaeth neu i wneud cais am y cynllun, cysylltwch â Motability – ewch i dudalen 17 i gael manylion cyswllt.

**Cynllun y Bathodyn Glas**

Os dyfarnir cyfradd uwch elfen symudedd y LBA i'ch plentyn, yna dylech fod yn gymwys i dderbyn Bathodyn Glas, a fydd yn rhoi consesiwn parcio i chi. Gallech fod yn gymwys hefyd i dderbyn bathodyn glas os na ddyfarnir cyfradd uwch elfen symudedd y LBA i'ch plentyn, ond ei fod yn cwrdd ag amodau penodol. Yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, cysylltwch â'ch cyngor lleol i gael rhagor o wybodaeth neu chwiliwch ar-lein. Yng Ngogledd Iwerddon, cysylltwch â'r Blue Badge Unit ar 0300 200 7818.

**Treth cerbyd**

Efallai y cewch eich eithrio rhag talu Treth Car os bydd eich plentyn yn cael elfen symudedd cyfradd uwch y LBA. Fel arfer, byddwch yn cael gwybod am hyn yn llythyr dyfarnu LBA eich plentyn. Cysylltwch â llinell gymorth y LBA am fwy o fanylion.

**Consesiynau trafnidiaeth gyhoeddus**

Mae pob cyngor lleol yn gweithredu cynlluniau i'r anabl i helpu gyda chostau teithio. Nid yw help fel hyn yn gysylltiedig yn uniongyrchol â p'un a yw eich plentyn yn derbyn LBA neu beidio. Mewn rhai ardaloedd, mae'r person anabl a'r gofalwr penodol sy'n hebrwng yr unigolyn anabl yn gymwys i deithio am ddim hefyd. Mae cynlluniau fel hyn yn amrywio o un cyngor i'r llall, felly cysylltwch â'ch cyngor lleol i gael gwybodaeth bellach ynghylch yr hyn sydd ar gael yn eich ardal. Yng Ngogledd Iwerddon, mae'r holl drafnidiaeth bws a rheilffordd yn cael ei weithredu gan Translink – gallwch gysylltu â nhw ar 028 9066 6630.

**Hawliad Cydymaith (Yr Alban yn unig)**

Os yw eich plentyn yn derbyn cyfradd ganolig neu uwch o elfen ofal y LBA, neuos ydynt wedi'u cofrestru'n ddall, neu'n byw mewn cartref gofal ac yn gymwysi dderbyn cyfradd ganolig neu uwch o elfen ofal y LBA, gallwch wneud cais amGerdyn Cydymaith. Mae hyn yn caniatáu i gydymaith deithio gyda nhw am ddim. Dylech gysylltu â'ch cyngor neu edrych ar wefan Transport Scotland i gael rhagor o wybodaeth yn transport.gov.scot/concessionary-travel/60plus- and-disabled/.

## Beth sy'n digwydd pan fydd eich plentyn yn 16 oed?

### Ynghylch Taliad Annibyniaeth Personol (TAP)

Mae PIP wedi disodli taliadau DLA ar gyfer pobl dros 16 oed.. (Mae hyn yn wir am bawb oedd o dan 65 oed ar 8 Ebrill 2013 yng Nghymru, Lloegra'r Alban, neu o dan 65 oed ar 20 Mehefin 2016 yng Ngogledd Iwerddon). Bydd plant sy'n derbyn LBA sy'n 16 oed cyn bo hir yn cael eu gwahodd i hawlioTAP yn fuan ar ôl eu pen-blwydd yn 16 oed, hyd yn oed os oes ganddynt ddyfarniad LBA amhenodol.

Bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau (Disability and Carers Service yng Ngogledd Iwerddon) yn ysgrifennu at benodai plant sy'n 16 oed yn fuan, i esbonio am TAP ac i wirio a fydd angen penodai ar y plentyn i weithredu ar ei ran. Os nad oes angen un arnynt, yna unwaith bydd y plentyn yn 16 oed, bydd yr Adran Gwaith a Phensiynau (Disability and Carers Service yng Ngogledd Iwerddon) yn ysgrifennu atynt yn uniongyrchol ac yn eu gwahodd i hawlio TAP. Os oes angen penodai arnynt o hyd oherwydd na allant ymdopi â'u materion eu hunain, bydd y DWP (Disability and Carers Service yng Ngogledd Iwerddon) yn cychwyn y broses o benodi penodai.

Yn yr Alban, bydd pobl ifanc/teuluoedd yn cael dewis o ran p’un a ydynt yn derbyn PIP neu'n parhau i dderbyn y Taliad Plant (ewch i dudalen 2).

I gael mwy o wybodaeth am TAP, ewch i carersuk.org/pip i lawrlwytho ein taflen ffeithiau.

## Penderfyniad TAP

Os yw unigolyn ifanc yn gwneud cais am TAP, bydd eu LBA yn parhau i gael ei dalu tan y gwneir penderfyniad ynghylch eu cais am TAP. Pan wneir y penderfyniad ynghylch eu cais am TAP, bydd eu LBA yn dod i ben hyd yn oed os oes ganddynt ddyfarniad amhenodol ar hyn o bryd. Os dyfarnir TAP i'r unigolyn ifanc, efallai y derbynnir yr un swm, neu fwy neu lai na'u LBA cyfredol. Gallai effeithio ar fudd-daliadau eraill y mae'r unigolyn ifanc, neu eraill yn eu cartref, yn eu derbyn.

## Rheolau arbennig ar gyfer pobl sydd â salwch angheuol

Bydd y rhai hynny sy'n derbyn LBA o dan y rheolau arbennig ar gyfer pobl sydd â salwch angheuol, yn cael eu gwahodd i hawlio TAP ar ddiwedd eu dyfarniad LBA cyfredol.

## Preswyliaeth a phresenoldeb

I fodloni'r profion preswyliaeth a phresenoldeb, mae'n rhaid i'ch plentyn gwrdd â'r ddau amod canlynol:

- Mae'n rhaid eu bod wedi bod yn bresennol ym Mhrydain Fawr (sydd i'r diben hwn hefyd yn cynnwys Gogledd Iwerddon) am 104 o wythnosau allan o'r 156 o wythnosau cyn gwneud cais (dwy allan o'r tair blynedd diwethaf)
- Mae'n rhaid mai Prydain Fawr yw eu preswylfan arferol

Mae ‘presennol’ yn golygu'n bresennol yn gorfforol ym Mhrydain Fawr, er y gellid ystyried rhai pobl fel bod ym Mhrydain Fawr tra eu bod dramor. Nid yw'r prawf gorffennol presennol yn berthnasol i bobl sydd yn cael eu cydnabod fel ffoaduriaid a'u teuluoedd.

Gall y rheolau yn y maes hwn fod yn gymhleth. Gallwch gael cyngor a chefnogaeth gan eich canolfan Cyngor ar Bopeth lleol: citizensadvice.org.uk/about-us/contact- us/contact-us/contact-us/. Gall y Ganolfan AIRE roi cyngor ar hawliau unigol yn Ewrop hefyd, a gellir cysylltu â’r ganolfan ar 020 7831 4276 neu drwy e-bostio info@airecentre.org

Os yw'r plentyn o dan chwe mis oes, mae prawf presenoldeb 13 wythnos yn gymwys tan eu pen-blwydd yn flwydd oed. Os ydynt rhwng 6 a 36 mis oed,y prawf yw 26 wythnos yn y 156 wythnos diwethaf.

Y prawf preswylfan arferol yw prawf i weld a yw eich plentyn fel arfer yn byw yn y Deyrnas Unedig, Ynysoedd y Sianel, Gweriniaeth Iwerddon neu Ynys Manaw. Defnyddir y prawf os buont yn byw dramor. Ni cheir diffiniad cyfreithiol manwl o 'breswylfan arferol’. Ffactorau perthnasol yw lle maent yn byw fel arfer, lle maent yn disgwyl byw yn y dyfodol, eu rhesymau dros ddod i'r wlad hon, hyd y cyfnod a dreuliwyd dramor cyn iddynt ddod yma, ac unrhyw gysylltiadau sydd ganddynt o hyd â'r wlad y maent wedi dod ohoni.

## Help ychwanegol

Mae ein gwefan yn cynnwys cyfoeth o wybodaeth ddefnyddiol am y materion ariannol ac ymarferol sy'n gysylltiedig â gofalu. Ewch i carersuk.org a chliciwch ar "Help and Advice" yn y brif ddewislen. Gallwch ddod o hyd i fanylion eich sefydliad gofalwyr lleol ar ein gwefan yn carersuk.org/local-support

Gallwch gysylltu â Llinell Gymorth Carers UK ar 0808 808 7777, neu e-bostio advice@carersuk.org. Os ydych yn byw yng Ngogledd Iwerddon, gallwch gysylltu â Carers NU ar 028 9043 9843 neu e-bostio advice@carersni.org.

### Sefydliadau eraill

**Y Gwasanaeth Apeliadau, Gogledd Iwerddon**
Y gwasanaeth sy'n ymdrin â'r broses apelio ar gyfer penderfyniadau budd-daliadau yng Ngogledd Iwerddon.
g: www.nidirect.gov.uk/contacts/contacts-az/appeals-service-benefits-appeals

**Contact**
Elusen genedlaethol sy'n cefnogi teuluoedd plant sydd ag anghenionychwanegol (ar draws y DU)
g: www.contact.org.uk | ff: 0808 808 3555e: www.helpline@contact.org.uk

**Cyngor ar Bopeth neu Advice NI (ar gyfer Gogledd Iwerddon)**
Yn rhoi cyngor annibynnol, cyfrinachol, diduedd am ddim.g: www.citizensadvice.org.uk neu adviceni.net/ (ar gyfer Gogledd iwerddon)

**Money Talk Team** (Yr Alban yn unig)
Yn rhoi cyngor cyfrinachol, diduedd i helpu i fwyhau incwm, delio gyda dyledion a lleihau biliau. g: moneytalkteam.org.uk ff 0800 085 7145

**Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM**
I chwilio am lys neu dribiwnlys yng *Nghymru* neu *Loegr* neu dribiwnlys yn *yr Alban*
g: www.courttribunalfinder.service.gov.uk/search/

Archwiliwr Achos Annibynnol

Gwasanaeth adolygu cwynion am ddim i bobl sydd wedi cwyno am eu cais am fudd-daliadau *(ar draws y DU).*

g: www.ind-case-exam.org.uk

ff: 0800 414 8529 (ffôn testun: 18001 0800 414 8529)

Motability

Mae Motability yn helpu pobl i symud o gwmpas drwy gyfnewid eulwfans symudedd i brydlesu car, sgwter neu gadair olwyn fodur (ar draws y DU)

g: www.motability.co.uk

ff: 0300 456 4566

Ombwdsmon Gogledd Iwerddon

Swyddog y llywodraeth sy'n gyfrifol am ddelio â chwynion amwasanaethau'r wladwriaeth. Gogledd Iwerddon

g: nipso.org.uk ff: 0800 343424 (ffôn testun: 028 90897789)

Ombwdsman Seneddol a Gwasanaeth Iechyd

Swyddog y llywodraeth sy'n gyfrifol am ddelio â chwynion am wasanaethau'r wladwriaeth. Cymru, Lloegr a'r Alban.

g: www.ombudsman.org.uk

ff: 0345 015 4033 (ffôn testun: 0300 061 4298)

Llinellau Cymorth budd-daliadau

Mae gan Ogledd Iwerddon dair llinell gymorth atddibenion gwahanol:

Llinell Ymholiadau Budd-daliadau ar gyfer cwestiynau cyffredinol

ff: 0800 220 674 (ffôn testun: 028 9031 1092)

Llinell Gymorth Newidiadau Lles i gael cyngor annibynnol ar newidiadau i fudd-daliadau ff: 0808 802 0020

Make the Call - i wirio nad ydych yn colli allan ar fudd daliadau ff: 0800 232 1271

Yng Ngogledd Iwerddon, mae un cyswllt ar gyfer Lwfans Gweini, Lwfans Gofalwr a Lwfans Byw i'r Anabl, sef Disability and Carers Service Gogledd Iwerddon:
ff: 0800 587 0912 (ffôn testun: 0800 012 1574)

Lwfans Gweini
**Cymru, Lloegr a'r Alban**
ff: 0800 731 0122 (ffôn testun: 0800 731 0317)

Uned Lwfans Gofalwr
**Cymru, Lloegr a'r Alban**
ff: 0800 731 0297 (ffôn testun: 0800 731 0317)

Yn yr Alban: ar gyfer Atodiad Lwfans Gofalwr/Grant Gofalwr Ifanc, Nawdd Cymdeithasol yr Alban
ff: 0800 182 2222 (ffôn testun: 0800 731 0317)

Lwfans Byw i'r Anabl
Cymru, Lloegr a'r Alban
Os cawsoch eich geni ar neu cyn Ebrill 81948:
ff: 0800 731 0122 (ffôn testun:
800 731 0317)
Os cawsoch eich geni ar ôl Ebrill 8 1948:
ff: 0800 121 4600 (ffôn testun: 0800 121 4523)

Ar gyfer Lwfans Ceisio Gwaith, Cymhorthdal Incwm a Lwfans Cyflogaeth a Chymorth:

Jobcentre Plus (Cymru, Lloegr a'r Alban)

Hawliadau newydd ff: 0800 055 6688 (ffôn testun: 0800 023 4888)

Hawliadau presennol ff: 0800 169 0310 (ffôn testun: 0800 169 0314)

Swyddfa Nawdd Cymdeithasol neu Swyddi a Budd-daliadau (Gogledd Iwerddon Manylion y swyddfeydd lleol: g: nidirect.gov.uk/contacts/jobs-benefits-offices Hawliadau ESA newydd ff: 0800 085 6318 (ffôn testun: 0800 328 3419)
Hawliadau presennol ff: 0800 587 1377 (ffôn testun: 0800 328 3419)

Credyd Pensiwn a Gwasanaeth Pensiwn (Cymru, Lloegr a'r Alban)
Llinell hawlio Credyd Pensiwn: ff: 0800 99 1234 (ffôn testun 0800 169 0133)
Llinell Hawlio Pensiwn y Wladwriaeth: ff: 0800 731 7898 (ffôn testun 0800 731 7339) (Gogledd Iwerddon)
Credyd Pensiwn: ff: 0808 100 6165 (ffôn testun 0808 100 2198)
Llinell Hawlio Pensiwn y Wladwriaeth ff: 0808 100 2658 (ffôn testun: 0800 100 2198)

Taliad Annibyniaeth Personol

Cymru, Lloegr a'r Alban

Hawliadau newydd: ff: 0800 917 2222 (ffôn testun: 0800 917 7777)

Llinell ymholiadau ff: 0800 121 4433 (ffôn testun: 0800 121 4493)

Gogledd Iwerddon

Hawliadau newydd ff: 0800 012 1573 (ffôn testun: 0800 587 0937)

Llinell ymholiadau ff: 0800 587 0932 (ffôn testun: 0800 587 0937)

Credydau Treth
Cymru, Lloegr yr Alban a Gogledd Iwerddon

ff: 0345 300 3900 (ffôn testun: 18001 0345 300 3909)

Llinell Gymorth Credyd Cynhwysol
Cymru, Lloegr a'r Alban

ff: 0800 328 5644 (ffôn testun: 0800 328 1344)
Gogledd Iwerddon
ff: 0800 012 1331 (ffôn testun: 0800 012 1441)

Nod y daflen ffeithiau hon yw rhoi gwybodaeth a chyngor defnyddiol. Nid yw'nddatganiad awdurdodol o'r gyfraith. Rydym yn gweithio i sicrhau bod ein taflenni ffeithiau yn gywir ac yn gyfredol, ond mae gwybodaeth am fudd-daliadau a gofal yn y gymuned yn agored i newiddros amser. Byddem yn argymell cysylltu â Llinell Gymorth Carers UK neu fynd i'n gwefan i gael yr wybodaeth ddiweddaraf.

Anfonwch eich adborth am y daflen ffeithiau hon atom drwy e-bost gyda'ch sylwadau i info@carersuk.org. Diweddarwyd y daflen ffeithiau hon ym mis Ebrill 2021. Dyddiad adolygu nesaf - Ebrill 2022.


**Llinell Gymorth Carers UK**

I gael gwybodaeth a chyngor arbenigol am ofalu.

**0808 808 7777**

advice@carersuk.org

**Carers UK**

20 Great Dover Street
Llundain SE1 4LX

020 7378 4999
info@carersuk.org

**Gofalwyr Cymru**

029 2081 1370
info@carerswales.org

**Carers Scotland**

0141 445 3070
info@carerscotland.org

**Carers Northern Ireland**

028 9043 9843

Llinell gymorth Carers NI:

advice@carersni.org


**Sut bynnag mae gofalu'n eich effeithio, rydym yma i chi.**

Bydd gofalu'n effeithio ar bob un ohonom ar ryw adeg yn ein bywydau.

Gyda'ch help, gallwn gefnogi 6,000o bobl sy'n dechrau gofalu am rywun bob dydd.

Ni yw'r unig elusen aelodaeth genedlaethol yn y DU i ofalwyr; ymunwch â ni am ddim yn carersuk.org/join. Rydym yn rhwydwaith cefnogi yn ogystal â mudiad dros newid.

Ewch i'n gwefan i ymuno â ni, i'n helpu neu i gael mynediad at fwy o adnoddau:

**carersuk.org**

**Gallwch ofyn am yr wybodaeth hon mewn print bras neu fel ffeil destun.**


© Carers UK 2021 Cod cyhoeddi UK 1028
Mae Carers UK yn elusen gofrestredig yn Lloegr a Chymru (246329) ac yn yr Alban (SC039307) ac yngwmni cyfyngedig trwy warant a gofrestrwyd yn Lloegr a Chymru (864097).
Swyddfa gofrestredig: 20 Great Dover Street, Llundain SE1 4LX